# CYFARFOD CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2010.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd G. O. Jones - Is-Gadeirydd.<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Lewis Davies, R. Anthony Dew, C. Ll. Everett, Jim Evans, Keith Evans, Ff. M. Hughes, R. Ll. Hughes, W. I. Hughes, W. T. Hughes, K. P. Hughes, Aled M. Jones, Eric Jones, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, R. Ll. Jones, T. H. Jones, Clive McGregor, Rhian Medi, Bryan Owen, J. V. Owen, R.L. Owen, R. G. Parry OBE, G.O. Parry MBE, Eric Roberts, G. W. Roberts OBE, J. Arwel Roberts, P. S. Rogers, Hefin W. Thomas, E. Schofield, Ieuan Williams, John Penri Williams. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid),<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cynllunio a'r Amgylchedd)<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau,<br>Swyddog Cyfathrebu |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr D. G. Hughes, T. Lloyd Hughes |

---

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Eric Jones.

### 1 DATGAN DIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Selwyn Williams ddiddordeb yn Eitem 5 a 6 o'r cofnodion hyn ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidleisio ar yr eitemau hynny. Aeth yr Is-Gadeirydd i'r Gadair am yr eitemau hynny.

Datganodd y Cynghorwyr Tom Jones a H. W. Thomas ddiddordeb yn Eitem 6 o'r cofnodion hyn, fe gymerodd y ddau ran yn y drafodaeth ond nid oeddent yn rhan o'r pleidleisio ar yr eitem.

### 2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD, AELODAU O'R PWYLLGOR GWAITH NEU'R PENNAETH GWASANAETH TÂL

Rhoddodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r Cynghorydd Richard Anthony Dew, yr aelod oedd newydd ei benodi dros Ward Rhosneigr ac estynnodd ei ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd D. R. Hughes am adferiad llwyr a buan.

Ar gais y Cynghorydd A. Morris Jones, estynnwyd llongyfarchiadau i George North ar ei ddyrchafiad i Dîm Rygbi Cymru ac ar ei lwyddiant yn ddiweddar yng nghyfres yr hydref o gemau Rygbi Rhyngwladol yng Nghaerdydd.

Addawodd y Cadeirydd hefyd i'r Cynghorydd Aled Morris Jones y byddai'n ysgrifennu ato ynglyn â datblygu Diwrnod y Lluoedd Afrog ar yr Ynys yn y dyfodol ac y byddai hefyd yn rhoddi ystyriaeth i'w gais ynglyn â rhoi Rhyddid y Sir i Gatrawd Frenhinol Cymru yn dilyn y colledion a gafodd y Gatrawd fel rhan o'i dyletswyddau milwrol yn Afghanistan.

## 3 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel cofnod cywir, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 14 Medi 2010
- 28 Hydref 2010 (Arbennig)

## 4 CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 Y CYFANSODDIAD

Gofynnodd y Cynghorydd G. O. Parry MBE, y cwestiwn canlynol i Arweinydd y Cyngor:-

*"Ers Mai 2010, faint o swyddi, parhaol, dros dro neu asiantaeth sydd wedi cael eu hysbysebu a'u llenwi? Beth oedd y costau hysbysebu a chostau blynyddol y swyddi hyn?*

*Faint o weithwyr sydd wedi gadael a faint o gyfweliadau gadael sydd wedi cael eu cynnal a'u cofnodi?"*

Mewn ymateb, rhoddodd Arweinydd y Cyngor yr wybodaeth ganlynol i'r Cynghorydd Parry am y cyfnod 1 Mai i 30 Tachwedd 2010:-

| | |
|---|---|
| Swyddi a hysbysebwyd<br>(yn cynnwys swyddi parhaol a thros dro ond dim asiantaeth) | 103 |
| Swyddi a lenwyd hyd at 7 Rhagfyr | 69 |
| Costau hysbysebu'r swyddi hyn | £42,918.61 |
| Cyflog blynyddol gros y swyddi fel gwaith llawn amser | £2,474,563 |
| Nifer staff oedd wedi gadael yr Awdurdod (70 o dan TUPE) | 156 |
| Cyfweliadau gadael | 7 |

Gofynnodd y Cynghorydd G. O. Parry MBE y cwestiwn ategol canlynol:-

*"Credaf ei bod yn bwysig bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gyfweliadau gadael gan ei fod yn bwysig gweld yr effaith y maent yn eu cael ar y patrwm cyflogaeth trwy'r Awdurdod. Fydd y Pwyllgor Gwaith yn mynd i'r afael â hyn?"*

Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd y byddai'r Pwyllgor Gwaith yn rhoi sylw i hyn ac y byddai Swyddogion yr Awdurdod hefyd yn rhoi sylw i'r sylwadau hynny.

Gofynnodd y Cynghorydd G. W. Roberts OBE (oedd wedi cael caniatâd gan y Cadeirydd i siarad ar y mater hwn) am fwy o wybodaeth gan yr Arweinydd, sef dadansoddiad o'r staff oedd wedi gadael yr Awdurdod a hefyd nifer y cyfweliadau gadael oedd wedi'u cynnal.

Wrth ateb, dywedodd yr Arweinydd y byddai'n rhoi ymateb ysgrifenedig i'r Cynghorydd Roberts ar y mater hwn.

*(Aeth yr Is-Gadeirydd i'r Gadair ar gyfer eitemau 5 a 6 a gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod gan iddo wneud datganiad o ddiddordeb).*

**5 CYFLWYNO DEISEBAU**

Yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad, rhoddwyd cyfle i'r Cynghorwyr B. Durkin, K. P. Hughes, W. T. Hughes a B. Owen gyflwyno eu deisebau yng nghyswllt eitem 6 isod mewn perthynas â Maes Parcio Benllech, Maes Parcio Llyfrgell Rhosneigr, Maes Parcio Swtan a Maes Parcio Cemaes.

**6 MATER A GYFEIRIWYD I'R CYNGOR SIR GAN Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD AR 16 CHWEFROR 2010**

Yn unol â Pharagraff 4.1.27.1 o Reolau Gweithdrefn y Cyngor, **PENDERFYNWYD** dileu'r Rheolau Sefydlog ar gyfer yr eitem hwn.

**Taliadau Parcio Ceir**

Adroddwyd - Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2010, yn dilyn ystyried cais i alw i mewn benderfyniad a wnaed gan yr Aelodau Portffolio Cyllid a Phriffyrdd, Trafnidiaeth ac Arforol fel y cafodd ei gyhoeddi ar 2 Tachwedd 2010, wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"cyfeirio penderfyniad yr Aelod Portffolio i'r cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhelir ar 9 Rhagfyr 2010 am y rhesymau a amlinellir yng nghynnig y Cynghorydd G. O. Parry MBE, sef:-*

*(i) Mae'r penderfyniad yn tynnu'n groes i egwyddorion y Cyfansoddiad;*
*(ii) Cymesuroldeb - cost darparu'r gwasanaeth o gymharu â'r incwm a fyddai'n cael ei godi.*
*(iii) Ymgynghori annigonol*
*(iv) Er budd bod yn agored ac yn dryloyw*
*(v) Eglurder amcanion a'r canlyniadau a ddymunir".*

Cafwyd trafodaeth hir iawn a chyfeiriodd rhai o'r aelodau at y rhesymau paham yr oedd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi penderfynu cyfeirio'r mater i'r Cyngor i'w ystyried ymhellach. Cyfeiriwyd yn arbennig at y pwyntiau canlynol:-

- cost gweithredu'r cynllun yn erbyn yr incwm y byddai'n ei greu;
- yr effaith andwyol ar fusnesau bychan;
- y diffyg ymgynghori gyda thrigolion, aelodau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned (yn groes i argymhellion diweddar Swyddfa Archwilio Cymru);
- yr effaith ar yr economi, ar dwristiaeth, a'r amgylchedd ac ar ddiogelwch ffyrdd mewn ardaloedd gwledig;

- y ffaith bod tua 3,000 o bobl wedi arwyddo deisebau yn erbyn y cynnig;
- y penderfyniad wedi'i wneud ar frys a hynny'n annheg i drethdalwyr yr Ynys;
- y Cyngor ddylai fod â'r pwer i benderfynu oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn fater o bolisi;
- yn tanseilio pentrefi bychan trwy yrru cwsmeriaid i ffwrdd;
- diffyg gwybodaeth am yr incwm a'r gwariant presennol ar feysydd parcio'r Cyngor;
- dim darpariaeth wedi'i gwneud i roi caniatâd parcio ar-y-stryd i drigolion.

Darllenodd y Cynghorydd Durkin ar goedd i'r Cyngor gynnwys llythyr hir gan Glerc Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf a dywedodd ei fod yn ystyried ei fod yn cael effaith fawr ar y penderfyniad wnaed gan y Deilyddion Portffolio.

Cafwyd cynnig a'i eilio y dylai'r Pwyllgor Sgriwtini Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol edrych ar yr holl fater parcio ceir a llunio polisi parcio lleol i'w benderfynu gan y Cyngor llawn.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro bod gan y Cyngor ddau opsiwn heddiw, naill ai cymeradwyo'r penderfyniad a wnaed gan y Deilyddion Portffolio ac os felly byddai'r penderfyniad hwnnw yn dod i rym yn awtomatig neu fel arall wrthod y penderfyniad hwnnw gyda rhesymau a'i anfon yn ôl i'r Deilyddion Portffolio fel y gallent hwy naill ai gadarnhau neu newid eu penderfyniad. Ei chyngor i'r Deilyddion Portffolio mewn sefyllfa o'r fath fyddai gohirio'r penderfyniad er mwyn gallu cwblhau'r broses ymgynghori ddylai fod wedi ei chynnal a bod eu penderfyniad wedyn yn cael ei anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith i'w benderfynu.

Yn ôl y gyfraith, nid oedd gan y Cyngor llawn yr awdurdod i gymryd unrhyw benderfyniadau heddiw ac ni allai chwaith gyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Sgriwtini perthnasol. Pwrpas unrhyw Grwp Tasg a Gorffen a gynigiwyd gan yr Arweinydd a'r Deilyddion Portffolio fyddai ceisio cael cytundeb ar argymhelliad i'w roi ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith.

Fel un awgrym o ffordd ymlaen, roedd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro o'r farn mai'r teimlad yn y Cyngor heddiw oedd y dylid sefydlu Grwp Tasg a Gorffen gyda chynrychiolaeth traws-barti i edrych ar fater yr 8 maes parcio dan sylw ond yng nghyd-destun polisïau parcio ceir ar draws y Cyngor cyfan, o ystyried y math o faterion oedd wedi'u codi heddiw o safbwynt datblygu economaidd, amddifadedd cymdeithasol ac ati. Byddai'r adroddiad hwnnw wedyn yn mynd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith, sef y polisi a goblygiadau'r polisi ar y meysydd parcio penodol hynny. Byddai'r ddogfen bolisi wedyn yn mynd i Sgriwtini i'w hadolygu. Byddai'r Pwyllgor hwnnw yn gwneud sylwadau ac o dan y trefniadau presennol, byddai'n rhaid iddo adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ac nid i'r Cyngor er mwyn newid y polisi hwnnw. Unwaith yn rhagor, byddai unrhyw benderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith yn ddarostyngedig i'r weithdrefn galw-i-mewn.

Dan ddarpariaethau Rheol 18.5 y Cyngor, cymerwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar y mater (h.y. cyfeirio'r mater yn ôl i'r Deilyddion Portffolio yn unol â geiriad yr argymhelliad roddwyd gerbron gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro):-

**O blaid:** Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, B. Durkin, Lewis Davies, R. Anthony Dew, Jim Evans, Fflur M. Hughes, R. Ll. Hughes, W. I. Hughes, W. T. Hughes, K. P. Hughes, Aled M. Jones, Eric Jones, G. O. Jones, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, R. Ll. Jones, C. McGregor, Rhian Medi, Bryan Owen, J. V. Owen, R. L. Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, G. W. Roberts OBE, J. Arwel Roberts, P. S. Rogers, E. Schofield, Ieuan Williams, J. P. Williams.

**Cyfanswm: 33**

**Yn erbyn:** Y Cynghorydd K. Evans. **Cyfanswm: 1**

Ni wnaeth y Cynghorwyr Tom Jones a H. W. Thomas bleidleisio gan mai hwy oedd y Deilyddion Portffolio oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad, ond dywedodd y ddau nad oeddent yn gwrthwynebu'r camau i'w cymryd.

**PENDERFYNWYD bod y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Deilyddion Portffolio gydag argymhelliad:**

- **Bod unrhyw benderfyniad i godi costau parcio ceir yn yr 8 maes parcio a enwir yn cael ei ohirio ar hyn o bryd;**

- **Bod Grwp Tasg a Gorffen yn cynrychioli'r holl Grwpiau Gwleidyddol ar y Cyngor ynghyd ag un Aelod Digyswllt, yn ystyried polisïau cyffredinol y Cyngor yng nghyswllt holl feysydd parcio'r Cyngor a bod y Deilyddion Portffolio penodol yn ail ystyried y penderfyniad ar yr 8 maes parcio yng ngoleuni'r fframwaith polisi arfaethedig hwnnw.**

- **Y polisi a argymhellir gan y Grwp Tasg a Gorffen i'w adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ac yna i'w gyfeirio i'r Pwyllgor Sgriwtini perthnasol i'w adolygu, cyn cael ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith.**

*(**PENDERFYNWYD** yn y fan hon i ailsefydlu'r Rheolau Sefydlog).*
*(Daeth y Cynghorydd Selwyn Williams yn ôl i'r Gadair am yr eitemau oedd yn weddill).*

## 7 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD - POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Adroddwyd bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2010 wedi penderfynu argymell fel a ganlyn i'r Cyngor Sir:-

*"(i) Cymeradwyo'r Cytundeb yn Atodiad 1 ar gyfer Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd a chymeradwyo mabwysiadu'r newidiadau cyfansoddiadol angenrheidiol gan y Cyngor llawn.*

*(ii) Dirprwyo grym i'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) i wneud, mewn cydweithrediad gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, unrhyw fân-newidiadau angenrheidiol i'r cytundeb yn Atodiad 1 os oes angen ac arwyddo'r Cytundeb gyda Chyngor Gwynedd.*

*(iii) Gwneud (neu, lle bo'n berthnasol, dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) mewn ymgynghoriad gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, newidiadau i'r Cyfansoddiad a nodir yn Atodiad 2 er mwyn gweithredu'r argymhellion uchod.*

*(iv) Tynnu CDLl Ynys Môn yn ôl yn unol ag Adran 66 Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 a dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) gymryd yr holl gamau angenrheidiol sy'n codi o dynnu'r cynllun yn ôl.*

*(v) Cyflwyno adroddiad diweddaru i'r Pwyllgor Gwaith cyn pen 3 mis yn manylu ar gynnydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd,"*

Cyfeiriodd y Cynghorwyr A. Morris Jones, B. Owen a G. W. Roberts OBE at y ffaith nad oedd unrhyw syniad o gostau'r cynllun ar gael gyda'r adroddiad er mwyn sicrhau'r aelodau bod y cynnig yn un cost effeithiol i'r Cyngor hwn yn y pen draw.

Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd W. J. Chorlton, Deilydd Portffolio y byddai'n darparu ymateb ysgrifenedig i'r tri Chynghorydd uchod yng nghyswllt costau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith fel uchod.**

## 8 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) yn adolygu'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar draws y Cyngor.

Mynegwyd peth pryder oherwydd mai dim ond dau aelod oedd yn Grwp Menai gyda'r ddau hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, e a'i bod o'r herwydd yn amhosibl i'r Grwp hwnnw fod â chynrychiolaeth ar Bwyllgorau Sgriwtini. Mynegwyd pryder hefyd bod y symiau arfaethedig wedi'u rhoi gerbron yn y cyfarfod ac nad oedd yr aelodau gan hynny wedi cael digon o amser i gymryd y cyfan i mewn.

Roedd rhai o aelodau'r wrthblaid yn bryderus ynglyn â'r dyraniad seddau roddwyd i'w Grwpiau hwy. Cwestiynwyd y mater o rowndio rhifau rhai dyraniadau i fyny neu i lawr. Yr un modd, roedd rhai yn ystyried bod y gwaith clandro ynglyn â'r dyraniadau i aelodau Digyswllt yn annemocrataidd ac yn annheg.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) ei fod yn fodlon cyfarfod gydag Arweinwyr y Grwpiau a chynrychiolydd yr aelodau Digyswllt y tu allan i'r cyfarfod hwn i egluro'r materion hyn yn fwy trwyadl. Fodd bynnag, ni ddylai'r penderfyniad ynddo'i hun gael ei ohirio heddiw. Dywedodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro ei bod yn un ffaith anffortunus o fewn cyfraith llywodraeth leol nad oedd gan aelodau Digyswllt yr un hawliau o safbwynt y prosesau dyrannu ac â oedd gan y Grwpiau Gwleidyddol o dan y cyfansoddiad. Nid oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ynglyn â'r dyraniad seddau i aelodau Digyswllt gan mai'r penderfyniad oedd yn cael ei gynnig heddiw oedd dirprwyo'r dasg honno i Gadeirydd y Cyngor Sir fel y gall ddod i gonsensws gyda'r aelodau hynny. Pe methai hynny, gan y Cadeirydd yn y pen draw y byddai'r awdurdod i benderfynu ar ba Bwyllgorau y byddai'r aelodau hynny yn gwasanaethu.

**PENDERFYNWYD**

- **Bod y Cyngor yn nodi'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol newydd a nifer y seddau sydd i'w priodoli i bob un o'r Grwpiau ac i'r Aelodau Digyswllt o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;**

- **Cytuno ar nifer cyfan y seddau sydd i'w dyrannu i'r Aelodau Digyswllt a bod Cadeirydd y Cyngor yn penderfynu ar ddyraniad pob un o'r seddau hynny i aelod digyswllt unigol; trwy gytundeb lle bo hynny'n bosibl;**

- **I ofyn i'r Arweinyddion Grwp ddarparu rhestr o enwau cynrychiolwyr eu Grwp ar bob Pwyllgor i'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor erbyn 10am dydd Gwener 10 Rhagfyr 2010, a bod Cadeirydd y Cyngor Sir yn darparu enwau'r aelodau digyswllt erbyn 12pm dydd Llun, 13 Rhagfyr, 2010.**

- **Bod awdurdod yn cael ei roddi i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) i alw cyfarfod gydag aelodau'r Grwpiau a chynrychiolydd yr aelodau digyswllt er mwyn egluro'r rhesymeg y tu ôl i'r dyraniadau gytunwyd arnynt yn y Cyngor heddiw.**

## 12 AELODAU'N DERBYN RHODDION

Adroddwyd gan Mr. Jeff Cotterell, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau - Bod y Pwyllgor Safonau wedi bod yn adolygu'r mater o Roddion a Lletygarwch, fel rhan o'i Raglen Waith barhaus. Adroddwyd yn ôl gyda manylion am yr ymatebion a dderbyniwyd gan Aelodau a hefyd am y sefyllfa mewn Cynghorau eraill yng Nghymru.

Yn gryno, er nad oedd sgriwtini'r Pwyllgor Safonau o Gofrestr y Cyngor o Roddion a Lletygarwch wedi nodi unrhyw achosion o bryder ac oherwydd rhesymau canfyddiad y cyhoedd ac enw da'r Cyngor, roedd y Pwyllgor o blaid gosod trothwy o sero o ran gwerth uchaf unrhyw roddion y mae Aelodau yn eu derbyn. Er hynny, mater i'r Cyngor Sir oedd gwneud penderfyniad terfynol ac, yn amodol ar y penderfyniad hwnnw, bydd y Pwyllgor Safonau yn datblygu canllawiau ar gyfer Rhoddion a Lletygarwch a bydd yn ymgynghori ar y ddogfen gydag Aelodau a Swyddogion, cyn cwblhau'r canllawiau yn derfynol ac argymell eu mabwysiadu yn y cyfarfod cyffredinol nesaf o'r Cyngor Sir.

Yn dilyn trafodaeth hir, cynigiodd rhai o'r aelodau bod y lefel yn cael ei gosod ar sero. Roedd aelodau eraill yn cynnig na ddylid newid y lefel bresennol o £20. Cafwyd pleidlais ar y mater.

(Roedd y Cynghorydd J. V. Owen yn dymuno iddo gael ei gofnodi nad oedd wedi pleidleisio ar y mater gan i'r Cadeirydd wrthod rhoi cyfle iddo siarad ar y mater).

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod yn dymuno cadw'r trefniant presennol, sef, y bydd uchafswm y trothwy ar gyfer derbyn rhoddion yn parhau ar £20.**

## 14 AWDURDOD HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd - Adroddiad llafar gan y Cynghorydd P. S. Rogers, cynrychiolydd y Cyngor hwn ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ar gyfarfodydd gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 1 Medi 2010 a 30 Tachwedd 2010.

Dywedodd bod Heddlu Gogledd Cymru yn symud ymlaen gyda phrynu safle ar Stad Ddiwydiannol Llangefni ar gyfer adeiladu Gorsaf Heddlu ac mai un o'r rhesymau y tu ôl i'r

penderfyniad oedd yr ailstrwythuro yn yr Awdurdod Heddlu er mwyn creu hybiau gweithredol ar draws Gogledd Cymru, gydag un ohonynt i fod yn Llangefni. Dywedodd hefyd bod cynllun peilot yn cael ei redeg ar yr Ynys o safbwynt cyfarfodydd cyswllt cymunedol. Roedd y cyntaf wedi'i gynnal yn Llangefni bythefnos yn ôl ac roedd un arall i'w gynnal yn Neuadd y Dref Caergybi yr wythnos nesaf. Byddai'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle i drigolion holi'r Heddlu a hefyd yn rhoi cyfle i'r Heddlu drafod dyfodol plismona ar yr Ynys o ystyried y toriadau arfaethedig yn eu cyllideb.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

## 18 GWEITHIO MEWN PARTNERIAETHAU A DIOGELU GWASANAETHAU RHENG FLAEN

Cyflwynwyd - Adroddiad y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro ar y cyd-destun a'r sail tros gydweithio gyda Chyngor Gwynedd yn unol â'r llythyr o LlCC. Roedd y Gweinidog wedi cael cyfarfod yn ddiweddar gydag Arweinwyr Grwp yn y ddau Awdurdod i drafod y posibiliadau o sicrhau mwy o gydweithio strategol. Ar sail hynny roedd LlCC yn bwriadu comisiynu astudiaeth sgopio fyddai'n ymchwilio i rai opsiynau dros gydweithio mewn mwy o fanylder. Roedd y manylion i'w gweld mewn llythyr oedd ynghlwm wrth yr adroddiad a bydd canlyniad yr astudiaeth yn cael ei adrodd yn ôl i'r ddau Gyngor fis Chwefror nesaf. Crybwyllodd yr Aelodau yr angen i alw gweithdy i gael safbwyntiau'r aelodau ynglyn â pha faterion y dylid eu codi gyda Chyngor Gwynedd.

Holodd y Cynghorydd Schofield a oedd gweithdy o'r fath i'r holl aelodau yn bosibl o gofio beth oedd y telerau cysylltu presennol.

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro bod gan y Cynghorydd Schofield ddiddordeb o ran lles o dan y Côd Ymddygiad i Aelodau o ran telerau'r Gynghrair, gan bod y telerau yn ei enwi ef yn benodol. Roedd y diddordeb hwnnw hefyd yn ddiddordeb rhagfarnol ac fe ddylai, felly, ddatgan diddordeb a gadael y cyfarfod. Nid oedd y ffaith nad oedd y telerau cysylltu wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor llawn yn berthnasol. Byddai'r Cynghorwyr Schofield a Durkin yn annoeth iawn i drafod y mater hwn yn y Siambr heddiw lle roedd y Côd Ymddygiad yn berthnasol iddynt hwy.

Dywedodd y Cynghorydd Durkin na fyddai'n cymryd unrhyw ran bellach yn y cyfarfod ac y byddai'n gadael y Siambr oherwydd bod y drafodaeth ar y pwnc yn parhau.

**PENDERFYNWYD**

- **Bod gan y Cyngor Sir hwn hanes o gydweithio cryf gyda'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac o fewn y cyd-destun hwnnw ei fod yn cefnogi'r astudiaeth sgopio a gynigiwyd gan y Gweinidog ar gael mwy o gydweithredu gyda Chyngor Gwynedd gan ymchwilio i bob cyfle i ddiogelu gwasanaethau llinell flaen;**

- **Mae'r Cyngor yn nodi'r sicrwydd gan y Gweinidog na fydd yna ymrwymiad ar unrhyw Gyngor ar hyn o bryd i dderbyn neu i weithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad sgopio;**

- **Bod Arweinwyr Grwpiau'n sefydlu grwp lefel uchel o uwch Aelodau i ffurfio, os yn bosibl, grwp cydranddeiliaid ar y cyd gydag aelodau o Wynedd i fod â throsolwg**

**o'r adolygiad;**

- **Gofyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fonitro cynnydd yr adolygiad a chyfrannu fel bo'n briodol;**

- **Cyn y cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd, bod cais yn cael ei wneud i'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro yn gofyn iddo ystyried galw gweithdy anffurfiol gydag aelodau'r Cyngor er mwyn canfod eu safbwyntiau ar ba faterion y dylid eu codi fel rhan o'r trafodaethau fydd i'w cynnal gyda Chyngor Gwynedd.**

- **Gofyn i'r Arweinydd ysgrifennu i'r Gweinidog yn atgyfnerthu'r pwyntiau godwyd yn y cyfarfod hwn o'r Cyngor o safbwynt cysylltiad.**

***Cynigiwyd ac eiliwyd a PHENDERFYNWYD gohirio ystyried eitemau 9, 10, 11, 13, 15, 16 a 17 i gyfarfod arbennig o'r Cyngor hwn i'w gynnal yn y flwyddyn newydd.***

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.50pm**

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**